# Cofnodion Cyfarfod 5/10/2023

**Presennol** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Tony Parry, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Eric Williams, John C Williams a Sion McGuiness.

Lis Puw *(Cyn Glerc)*.

Huw Antur (*Clerc Newydd*).

**Ymddiheuriadau:** Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

**Cyhoedd:** Richard Eccles (am ran gyntaf y cyfarfod).

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer Eifion Roberts. Cyfeiriodd at y ffaith mai hwn oedd cyfarfod olaf Lis Puw fel Clerc y Cyngor, a chroesawodd Huw Antur, y Clerc newydd i'w gyfarfod cyntaf. Diolchodd i Lis Puw am ei gwasanaeth hir i'r cyngor.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/9/23.
4. **Materion y Clerc:**

   i. Cyfarfod gyda'r Heddlu 28.9.23: Cafwyd adroddiad gan Clare Mackintosh, a chyfeiriodd at y Smartwater Project, sef prosiect sy'n marcio eiddo yn gudd gyda marciwr UV. Dywedodd fod Pecyn Diogelwch ar gael am bris gostyngol o £10, a'i fod ar gael i wahanol ardaloedd a chymunedau. Dywedodd fod Digwyddiad Cymdeithasol ar y gweill i hyrwyddo diogelwch, a'i bod yn annog y Cyngor Tref i gefnogi a hyrwyddo'r digwyddiad. Bydd Clare yn parhau i fod yn gyswllt gyda'r heddlu ynglŷn â'r digwyddiad hwn.

   ii. Trefniadau Sul y Cofio: Atgoffwyd yr aelodau am drefniadau Sul y Cofio ar Dachwedd 12fed, ac fe anogwyd y Maer a'r cynghorwyr i fynychu'r gwasanaeth ger y Gofeb Goffa.

   iii. Holiadur Hunaniaith: Cadarnhaodd Lis Puw ei bod wedi cwblhau'r holiadur ar ran y Cyngor Tref.

   iv. Gohebiaeth Bestway: Nodwyd na chafwyd ymateb i'r ohebiaeth ynglŷn â chyflwr siop Bargain Booze. Trafodwyd y posibilrwydd o godi'r mater gyda Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd, ac i geisio cymorth y Cyng Dilwyn Morgan gyda hyn.

   v. Rheolau Sefydlog: Cafwyd trafodaeth ar gymal 27 o'r Rheolau Sefydlog sy'n nodi trefniadau iaith y Cyngor. Cytunwyd i gael arweiniad Menter Iaith Gwynedd ar y mater yma, ac i ail drafod y mater yn dilyn derbyn eu harweiniad.

vi. Darpariaeth deintyddol: Adroddwyd nad oedd Fiona Hopkins wedi medru mynychu'r cyfarfod, ond ei bod yn gobeithio cael adroddiad gan Mabon ap Gwynfor yn fuan. Nodwyd hefyd fod pryder am lefelau staffio meddygon yn y Ganolfan Iechyd.

vii. Cyfarfod Dyfodol Rhuthun: Cafwyd adroddiad gan Jacqueline Allen o gyfarfod i drafod cynlluniau datblygu Rhuthun, materion fel datblygu marchnad, gwaith celf, ardaloedd gwyrdd a datblygu cymunedol cyffredinol. Nodwyd y gellid datblygu syniadau fel hyn yn y Bala, a bod dathliad Y Bala – Yma o Hyd yn gyfle i wneud hyn. Nodwyd hefyd fod cynllun adfywio Ardal Ni Cyngor Gwynedd yn sail i waith fel hyn, a nododd Huw Antur y bydd y ddogfen yn cael ei datblygu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn bresennol.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd adroddiad gan Tony Parry o gyfarfod yn y Clwb Rygbi ar Hydref 4ydd. Dywedodd fod diddordeb mawr yn y bwriad o nodi Siarter 1324, a bod nifer dda o syniadau wedi eu cyflwyno ar gyfer trafodaeth bellach. Dywedodd y bydd cyfarfod pellach ar Hydref 25ain, a bwriad i ddechrau gweithredu ar y syniadau ddechrau'r flwyddyn. Nodwyd bwysigrwydd cynnwys Penllyn gyfan yn y dathliadau, ac hefyd i sicrhau gwasanaeth cyfieithydd i'r cyfarfodydd.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

i. Is-bwyllgor y Nadolig: Y pwyllgor heb gyfarfod, ond bwriad pendant i gael goleuadau Nadolig yn eu lle ar y Stryd Fawr fel arfer.

ii. Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau, gan gynnwys llochesi bws a thaclusrwydd y dref: Dim i'w ychwanegu.

iii. Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar: Cafwyd adroddiad gan Eluned Jones, ac adroddodd ei bod wedi cyfarfod staff y Tim Taclus. Cafwyd trafodaeth ar leoliad meinciau'r Stryd Fawr (ee ger Banc HSBC a ger Siop Ria), a phenderfynwyd gofyn i'r Cyng Dilwyn Morgan i drefnu fod meinciau yn cael eu symud o'r Clwb Rygbi i'r ardal o flaen Canolfan Bro Tegid. Dywedodd Eric Williams y byddai'n trafod lleoliad mainc ger Siop Ria gyda'r Cyng Morgan. Cytunwyd y byddai'n dda cael mwy o flodau i harddu'r dref.

iv. Is bwyllgor digwyddiadau a gwella adnoddau i drigolion Y Bala – nodwyd mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd fydd dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.

v. Bioamrywiaeth: Dywedodd Jacqueline Allen ei bod wedi mynychu cyfarfod o Un Llais Cymru i drafod cynlluniau bioamrywiaeth, a'i bod yn bwriadu parhau i fynychu'r cyfarfodydd. Nodwyd fod posibilrwydd i ymgeisio am grantiau sylweddol gan Gyngor Gwynedd i wireddu prosiectau, a nodwyd y byddai'n dda cael rhaglen o blannu coed a blodau fel rhan o ddathliadau Y Bala – Yma o Hyd.

vi. Is Bwyllgor Cyllid: Cafwyd adroddiad o'r broses o recriwtio Clerc a Swyddog Cyllid, ac fe amlinellwyd y broses o greu Swydd Ddisgrifiad, o hysbysebu'r swydd ac o gyfweld yr ymgeiswyr. Cytunwyd i gadarnhau penderfyniad yr Is Bwyllgor i benodi Huw Antur Edwards, a hynny ar Raddfa NALC 22, 40 awr y mis. Cadarnhawyd hefyd y penderfyniad o glustnodi hyd at £5,000 tuag at ddathliadau Y Bala – Yma o Hyd.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

i) Un Llais Cymru: Cafwyd adroddiad gan y Maer o gyfarfod gyda James Davies o Gymorth Cynllunio Cymru ar Hydref 4. Adroddwyd fod arweiniad ar gael gan Gymorth Cynllunio Cymru ar faterion cynllunio, sail penderfyniadau cynllunio a pholisi cynllunio yn gyffredinol. Cafwyd arweiniad hefyd ar sut i aelodau o'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref yn rhithiol, ac hefyd sut i fynychu cyfarfodydd o Un Llais Cymru yn rhithiol.

ii) Cymdeithas Chwaraeon y Bala a Phenllyn: Cafwyd adroddiad gan Jacqueline Allen, ac adroddodd fod y Clwb Criced bellach yn aelodau o'r Gymdeithas. Dywedodd hefyd fod y Gymdeithas yn bryderus am rannu llwybr ger y Pafiliwn, ac am y ffaith fod sefydliadau eraill yn y dref yn llwyddo i ddenu grantiau. Trafodwyd y broblem o faw cŵn yn yr ardal, a nodwyd y byddai'n dda i'r Warden Cŵn fod yn yr ardal yn gynnar, rhwng 7am ac 8am – y Clerc i gysylltu. Awgrymwyd hefyd y byddai cyfuniad o arwyddion a sticeri yn tynnu sylw perchnogion cŵn at y broblem.

iii) Grŵp Siopau'r Bala – Dim adroddiad pellach.

iv) Cwmni Pum Plwy Penllyn: cafwyd adroddiad gan Rhys Evans pryd y rhoddodd amlinelliad o brysurdeb Canolfan Henblas fel lleoliad swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod, a gweithgareddau'r Hwb Llesiant yng Nghanolfan Bro Tegid. Cyfeiriodd yn benodol at y Gwersi Cymraeg (5 diwrnod yr wythnos), yr Ŵyl fwyd ar Hydref 25 ac at gymorthfeydd gyda Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor ym mis Tachwedd. Cadarnhawyd fod cais am gyllid i uwchraddio Canolfan Bro Tegid wedi ei gyflwyno i Mantell Gwynedd ddiwedd mis Medi.

*8.* **Materion Cynllunio**: Nid oedd ceisiadau cynllunio i'w hystyried.

**9. Materion Cyllid:**

i. Adroddiad yr Archwilydd Allanol: Tynnwyd sylw'r aelodau at yr angen iddynt benderfynu derbyn lwfans cynghorwyr blynyddol o £156 neu i gadarnhau nad oeddent am hawlio'r lwfans. Nodwyd y bydd angen diweddariad ar y sefyllfa erbyn mis Rhagfyr. Tynnwyd sylw hefyd fod angen cofnodi gwariant Cronfa'r Maer yn gyson, a sicrhau derbynneb am bob taliad neu gyfraniad. Nodwyd fod y Cyngor wedi nodi'r ddau fater uchod ac yn gweithredu yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Allanol.

**ii.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £26,500 yn y cyfri cyfredol, £16,000 yn y cyfri cadw a £529 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.

**iii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws (£75), taliadau dyledus HMRC a chyflog y Clerc.

**iv.** Nodwyd fod y SLCC yn mynd i gysylltu i gadarnhau aelodaeth y clerc newydd, ac fe gytunwyd i dalu'r anfoneb berthnasol.

**10. Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

i. Llythyr Un Llais Cymru a Chyngor Gwynedd yn tynnu sylw at grantiau bioamrywiaeth.

ii. Llythyr Un Llais Cymru yn amlinellu Rhaglen Hyfforddiant tymor yr hydref.

iii. Cylchlythyr Un llais Cymru.
iv. Llythyr NMWTRA yn nodi eu bwriad i docio coed ar y Stryd Fawr.
v. Llythyr gan Huw Antur Edwards yn cyflwyno ei hun fel Swyddog Cefnogi Cymunedau i'r ardal ar ran Cyngor Gwynedd. Eglurodd Huw ei fod yn gweithio'n rhan amser (Llun – Mercher) yn cynorthwyo datblygiad prosiectau cymunedol o bob math.
vi. Llythyr gan Gyngor Gwynedd yn tynnu sylw at grantiau Cynlluniau Bwyd.
vii. Llythyr Cwmni Pum Plwy Penllyn yn tynnu sylw at y gwrych ar Lwybr Cae Tudur. Cytunwyd i ariannu'r gwaith ychwanegol o dorri top y gwrych (cost hyd at £150).
viii. Llythyr gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn tynnu sylw at gronfa natur.
ix. Llythyr Ambiwlans Awyr Cymru yn nodi dyddiadau cyfarfodydd lleol.

**11. Gweplyfr:** Derbyniwyd adroddiad gan Clare Mackintosh pryd y dywedodd ei bod wedi bod yn rhannu gwybodaeth a phosteri ar y safle. Gofynnodd i'r Maer am adroddiad misol byr o waith y Cyngor Tref, ac i'r cynghorwyr am gydweithrediad i roi cyflwyniad byr a llun ohonynt ar y safle.

12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Nid oedd materion lleol i'w trafod.

13. Daeth y cyfarfod i ben am 9pm, ac fe gyflwynwyd anrheg i Lis Puw i ddiolch iddi am ei gwaith diflino fel Clerc a swyddog Cyllid i'r Cyngor Tref am gyfnod o 10 mlynedd.